



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair yr Eglwys yng
Nghymru
Park Street
Overton Road
Wreccsam
LL14 6LE**

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/12/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru wedi'i lleoli ym mhentref Rhiwabon, ger Wrecsam. Ar hyn o bryd, mae 226 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 27 o ddisgyblion yn y dosbarth meithrin rhan-amser. Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd islaw cyfartaledd Cymru, sef 19%. Dywed yr ysgol fod gan ryw 16% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r ysgol yn addysgu ei disgyblion mewn saith dosbarth oed unigol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig ac yn siarad Saesneg. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i oddeutu 7% o ddisgyblion. Nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr ysgol ym Medi 2009. Fe wnaeth y pennaeth ymgymryd â'i swydd ym Medi 2013.

Y gyllideb ysgol fesul disgybl unigol yn Ysgol y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru (Rhiwabon) yn 2015-2016 yw £3,229 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Wrecsam yw £8,199 a'r lleiafswm yw £2,778. Mae Ysgol y Santes Fair yr Eglwys yng Nghymru (Rhiwabon) yn safle 41 o'r 60 ysgol yn Wrecsam o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da ac maent yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda ar draws y cwricwlwm
- Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn cynnal lefelau da o ganolbwyntio mewn gwersi
- Mae cyfraddau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg
- Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol ac maent yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion
- Mae'r cwricwlwm wedi'i strwythuro'n dda ac yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu ar eu gwybodaeth a'u profiad wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- Mae'r rhan fwyaf o addysgu'n rhoi lefel uchel o her i ddisgyblion, trwy weithgareddau diddorol
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Mae'r pennaeth a'r uwch staff yn cynnig arweinyddiaeth gref ac effeithiol sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau
- Mae'r broses hunanarfarnu effeithiol yn manteisio'n briodol ar amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol ac mae'n galluogi dysgwyr i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn gywir
- Mae cynllun gwella'r ysgol yn adeiladu ar ganfyddiadau hunanarfarnu ac mae'n arf effeithiol ar gyfer symud yr ysgol yn ei blaen
- Mae'r partneriaethau cryf â rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill yn cael dylanwad cadarnhaol ar ddeilliannau i ddisgyblion
- Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio cyllideb yr ysgol yn effeithlon i gyflawni'r effaith fwyaf ar ddeilliannau i ddisgyblion

Argymhellion

- A1 Codi cyrhaeddiad y disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 mewn mathemateg
- A2 Ymestyn rôl disgyblion wrth drafod beth maent yn ei ddysgu a sut
- A3 Sicrhau bod yr addysgu ym mhob dosbarth yn dda neu'n well yn gyson
- A4 Ymestyn y graddau y mae disgyblion yn cael eu cynnwys mewn arfarnu a chynllunio'u cynnydd eu hunain
- A5 Datblygu rôl y corff llywodraethol wrth herio'r ysgol i wella

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n cyd-fynd yn fras â'r rhai a ddisgwylir gan ddisgyblion o oedran tebyg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llefaredd yn dda. Gwrandawant yn ofalus ar eu hathrawon ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir ac yn hyderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn wrandawyr da. Mewn dosbarthiadau, maent yn talu sylw manwl ac yn gwrandao'n barchus ar eu sylwadau ei gilydd wrth drafod mewn grwpiau. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus ac yn sicrhau bod eraill yn gallu'u deall trwy ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoedran. Yng nghyfnod allweddol 2, daw llawer o ddisgyblion i siarad yn rhugl a gallant drafod eu syniadau a'u barn yn aeddfed.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn dda. Defnyddiant eu gwybodaeth am ffoneg yn dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn disgrifio'r sefyllfa a chymeriadau yn eu llyfrau yn hyderus ac yn rhagweld sut y gallai stori ddatblygu. Mae gan llawer ohonynt arferion darllen da ac maent yn darllen yn aml yn yr ysgol a gartref.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau i wneud cynnydd da o ran darllen. Ym Mlwyddyn 4, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen yn glir, yn gywir, a gyda dealltwriaeth. Maent yn talu sylw da i atalnodi i'w galluogi i ddarllen gyda mynegiant. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae llawer o ddisgyblion yn ddarllenwyr medrus. Darllenant yn eang, gan ddod i gasgliadau i ymestyn eu dealltwriaeth. Mae llawer ohonynt yn darllen yn ofalus er mwyn cael gwybodaeth wrth ymchwilio i bynciau, gan arddangos medrau ymchwil sy'n datblygu, fel cip ddarllen a lithr ddarllen.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddarllenadwy, gan ffurfio llythrennau'n ofalus. Mae eu sillafu yn gywir ar y cyfan ac mae eu brawddegau'n cynnwys amrywiaeth dda o gysyllteiriau ac atalnodi. Defnyddiant eu medrau llythrennedd yn dda at amrywiaeth o ddibenion. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu dyddiaduron diddorol yn arddull Samuel Pepys ac yn ail-greu adroddiadau papurau newyddion ar dân mawr Llundain.

Mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda yn ystod cyfnod allweddol 2. Ym Mlwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen glir ac yn cyflwyno'u gwaith yn daclus. Mae gan llawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth ddatblygol o sut i addasu eu harddull ysgrifennu i wahanol genres. Er enghraifft, mae eu hadroddiadau gwyddonol ar ffurf paragraffau wedi'u strwythuro'n ofalus ac yn cynnwys is-benawdau, ac mae eu disgrifiadau o Harri'r Wythfed yn defnyddio

delweddu cryf a geirfa ddiddorol yn effeithiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau sy'n gweddu'n addas at eu dibenion a'u cynulleidfa fwriadedig. Mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n faith, gan ddewis eu geiriau'n ofalus i greu disgrifiadau byw o gymeriadau a lleoedd. Er enghraifft, maent yn llunio bywgraffiadau manwl o sêr pop enwog Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran datblygu amrywiaeth eang o fedrau mathemategol. Maent yn darllen, yn ysgrifennu ac yn trefnu rhifau'n gywir ac yn defnyddio'r pedwar gweithrediad i gyfrifo gan ddefnyddio rhifau dau ddigid. Maent yn mesur yn ofalus gan ddefnyddio unedau ansafonol i ddechrau, gan symud ymlaen i fesurau metrig yn briodol. Maent yn enwi ac yn disgrifio siapiau rheolaidd yn gywir, yn llunio siartiau cyfrif ac yn tynnu lluniau o graffiau bloc taclus, er enghraifft i ddangos canlyniadau helpa bwystfilod bach.

Mae llawer o ddisgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau mathemategol yn dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion sy'n fwy abl yn cyflawni'r safonau y gallant eu cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn effeithiol mewn amrywiaeth eang o bynciau. Er enghraifft, maent yn cymharu ystodau tymheredd yng Nghymru ac Affrica, ac yn mesur a chyfrifo'n ofalus wrth archwilio sut mae hyd gwahanol ddarnau o weiar yn dylanwadu ar ba mor llachar yw bwlb mewn cylched. Wrth gymharu'r fersiwn ffilm a'r fersiwn print o 'The Lion, the Witch and the Wardrobe', mae llawer ohonynt yn dewis tynnu llun diagram Venn manwl.

Ym mron pob dosbarth, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau TGCh yn dda mewn sawl un o feysydd y cwricwlwm. Wrth iddynt symud o un dosbarth i'r nesaf, defnyddiant becynnau meddalwedd fwyfwy soffistigedig i gyflwyno'u gwaith yn effeithiol. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio'r rhyngwyd yn dda i ymchwilio i sut mae anifeiliaid wedi'u haddasu i'w hamgylchedd a defnyddiant daenlenni syml i gymharu costau gwahanol lenwadau ar gyfer brechdanau.

Mae safonau mewn Cymraeg yn datblygu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar storïau. Maent yn gofyn ac yn ateb cwestiynau syml o lyfrau cyfarwydd yn gywir. Ym Mlwyddyn 2, mae disgyblion yn darllen yn gywir gan arddangos dealltwriaeth dda. Mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau i ddatblygu eu medrau siarad a gwrando Cymraeg yn briodol. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yr hyder i ddefnyddio patrymau iaith cyfarwydd. Mae disgyblion mwy abl yn gofyn ac yn ateb cwestiynau mwy cymhleth. Trwy eu hysgrifennu, mae bron pob disgybl yn dangos lefel uchel o ddealltwriaeth o'r hyn y maent wedi'i ddarllen yn Gymraeg.

Mae bron pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn ymateb yn dda i'r cymorth ychwanegol a gânt ac yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyrhaeddiad disgyblion yn y deiliant disgwylidig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol yn gyffredinol yn gosod yr ysgol yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn y deilliannau uwch na'r disgwyl, mae cyrhaeddiad mewn datblygiad mathemategol yn gosod yr ysgol yn yr 50% uwch o ysgolion tebyg ac mae cyrhaeddiad mewn medrau llythrennedd yn amrywio, gan symud yr ysgol rhwng y 50% is a'r 25% uchaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad disgyblion yn y blynyddoedd diwethaf ar y lefel ddisgwyliedig mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos amrywiadau mawr. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae cyrhaeddiad yn dangos tuedd o wella, gan symud yr ysgol o'r 50% is i'r 50% uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad mewn mathemateg yn dangos rhywfaint o welliant, er bod yr ysgol yn parhau yn yr 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae amrywiaeth helaeth yng nghyrhaeddiad cymharol bechgyn a merched. Mae bechgyn yn tueddu i berfformio'n well na merched mewn mathemateg, ond fel arall, nid oes patrwm amlwg.

Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn perfformio yn unol â disgyblion eraill ar y lefel ddisgwyliedig ond nid ydynt yn perfformio cystal ar y lefel uwch mewn Saesneg a gwyddoniaeth.

Lles: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gyfarwydd â phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd a bwyta deiet iach. Mae llawer ohonynt yn dewis bod yn weithgar yn ystod amser cinio, gan chwarae pêl-droed a pêl-fasged. Mae disgyblion hŷn yn deall sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae'r grŵp e-ddiogelwch wedi cynhyrchu ffilm sy'n annog disgyblion iau i gadw'n ddiogel ar-lein ac i ofyn am help wrth ddefnyddio'r rhyngwrdd.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Mae disgyblion yn gwrtais iawn tuag at oedolion a'i gilydd. Mae hyn yn eu galluogi i gydweithredu'n dda iawn â'i gilydd o gwmpas yr ysgol ac mewn gwersi. Mae gan bron pob un o'r disgyblion agweddau da at ddysgu. Maent yn cynnal lefelau da o ganolbwyntio mewn gwersi ac mae disgyblion hŷn yn siarad yn frwdfrydig am sut maent yn symud tuag at eu targedau personol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus y bydd eu hathrawon yn eu helpu os bydd ganddynt broblem.

Mae cyfraddau presenoldeb yn dda, gan osod yr ysgol yn yr 50% uwch yn gyson o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol yn cynrychioli disgyblion eraill yn dda ac mae'r ysgol yn talu sylw da i'w barn. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol wedi dylanwadu ar benderfyniad yr ysgol ynghylch prynu offer cyfrifiadurol newydd. Mae'r cyngor yn trefnu prynhawniau coffi i rieni, sy'n cryfhau'r cyswllt rhwng teuluoedd a'r ysgol. Mae disgyblion hŷn yn mwynhau ymgymryd ag amrywiol gyfrifoldebau. Maent yn cymryd eu rolau fel bydis amser chwarae o ddifrif, sy'n helpu i feithrin perthnasoedd da rhwng y gwahanol grwpiau oedran ac yn sicrhau bod disgyblion iau yn hapus ac yn ddiogel yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch sut y byddai'n well ganddynt ddysgu. Er bod llawer o ddisgyblion yn awgrymu pa agweddau ar eu pynciau yr hoffent eu hastudio, nid yw athrawon yn talu sylw i'w syniadau fel mater o drefn.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ennyn diddordeb ac yn symbylu bron pob un o'r plant yn dda. Mae'r ysgol yn strwythuro'i chwricwlwm yn dda iawn ac yn caniatáu i ddisgyblion adeiladu ar eu gwybodaeth a'u profiad wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. Mae cynllunio yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen yn drylwyr, gan sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau dan arweiniad oedolion a'r rhai sy'n hybu annibyniaeth disgyblion. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae cyfleoedd am ddysgu yn yr awyr agored wedi'u datblygu'n dda.

Mae darpariaeth dda ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn gynyddol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn mewn sawl maes, fel ysgrifennu adroddiadau papur newyddion am dân mawr Llundain a chymharu faint o law sy'n disgyn yn Affrica ac yng Nghymru. Mae datblygiad medrau TGCh disgyblion yn arbennig o dda. Er enghraifft, mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o becynnau meddalwedd i ddatblygu medrau rhaglennu disgyblion.

Mae llawer o ddisgyblion yn elwa o amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys y clwb Taekwondo poblogaidd a'r clwb 'bwyd iach'. Mae'r cyfleoedd hyn yn hybu ffyrdd iach o fyw a lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant iau yn dysgu am baratoi bwyd iach wrth wneud pítsa i fynd ag ef adref.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth eang o deithiau ac ymweliadau sy'n ychwanegu at y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn mynychu'r jamborí Cymraeg i ddatblygu eu medrau iaith. Mae'r ysgol yn defnyddio ymwelwyr yn dda i ymestyn dysgu'r disgyblion. Mae ymwelwyr fel triniwr gwallt a swyddog y llynges yn cefnogi dealltwriaeth ddisgyblion o fyd gwaith yn ystod 'wythnos swyddi'.

Trwy waith pwnc, mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth o ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Er enghraifft, mae gwaith am gerddoriaeth Affrica a'r Caribî yn datblygu gwybodaeth disgyblion am ddiwylliannau eraill. Mae'r pwyllgor eco yn ychwanegu at hyn trwy wythnosau eco pwrpasol a chreu tafenni i hybu ailgylchu.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu Cymraeg fel ail iaith ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae staff yn sicrhau cydbwysedd da o weithgareddau llafar ac ysgrifenedig yn eu cynllunio wythnosol. Mae rhaglen o ymweliadau ag amrywiaeth o safleoedd treftadaeth Cymru yn cyfoethogi profiadau disgyblion o ddiwylliant Cymru. Mae'r eisteddfod ysgol flynyddol a dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn ymestyn y profiadau hyn ymhellach.

Addysgu: Da

Mae gan yr holl aelodau staff berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac maent yn eu symbylu ac yn ennyn eu diddordeb yn dda. Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn cynllunio gwersi diddorol sy'n herio disgyblion i gyflawni'n dda iawn. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod beth mae athrawon eisiau iddynt eu cyflawni erbyn diwedd pob gwrs ac yn amlinellu'r camau y gall

disgyblion eu defnyddio i'w cyflawni. Yn y rhan fwyaf o ddsbarthiadau, mae amrywiaeth o ddulliau addysgu yn hybu annibyniaeth disgyblion yn dda. Yn gyffredinol, mae gwersi yn mynd yn eu blaen ar gyflymder da, sy'n cynnal diddordeb disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi'n fedrus i hybu medrau meddwl disgyblion. Mae cynorthwyrwyr addysgu'n cefnogi disgyblion llai abl yn dda.

Mae bron pob un o'r athrawon yn sicrhau bod adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion yn gefnogol ac mae'n dangos sut y gellid gwella'u gwaith a beth yw eu camau nesaf yn glir. Ym mron pob dosbarth, mae'r athrawon yn cefnogi disgyblion yn dda i arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cymheiriaid, ond megis dechrau datblygu y mae hyn ar hyn o bryd.

Mae gan yr ysgol raglen brofi ac asesu effeithlon, sydd wedi ennill ei phlwyf, sy'n galluogi staff i fesur cyflawniad disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio system olrhain electronig sy'n eu galluogi i amlygu'r disgyblion hynny sy'n well neu'n waeth na'r disgwyl, ac addasu eu cynllunio yn unol â hynny. Mae adroddiadau i rieni yn fanwl.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda. Mae staff yn addysgu disgyblion yn fedrus ynghylch sut y dylent uniaethu â'i gilydd. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn ofalgar ac yn cymryd cyfrifoldeb am edrych ar ôl ei gilydd. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o asiantaethau allanol sy'n cefnogi disgyblion yn dda. Mae'r rhain yn cynnwys ffisiotherapyddion, seicolegwyr addysg a gweithwyr cymdeithasol sy'n cefnogi disgyblion agored i niwed. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm i sicrhau eu bod yn nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar. Mae amrywiaeth eang o strategaethau ymyrryd i sicrhau bod disgyblion yn cael yr help y mae arnynt ei angen i wneud cynnydd da. Mae cynlluniau unigol yn rhoi ystyriaeth dda i'r hyn y gall disgyblion ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i gyrraedd eu targedau. Mae'r ysgol yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i helpu plant i gyrraedd eu potensial. Er enghraifft, maent yn cefnogi sesiynau darllen disgyblion ac yn darparu gweithgareddau sy'n datblygu hyder disgyblion.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn hybu awyrgylch digynnwrf, pwrpasol a gofalgar yn llwyddiannus. Mae'n gymuned gynhwysol sy'n trin pob disgybl yn gyfartal, ni waeth beth yw eu rhywedd, cefndir neu allu. Mae disgyblion yn datblygu parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal a chadw'n dda ac maent yn ddiogel. Mae ystafelloedd dosbarth yn fach ond yn olau. Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac yn y coridorau yn llachar, lliwgar ac addysgiadol. Mae adnoddau da ar gyfer ardaloedd dysgu awyr agored y Cyfnod Sylfaen ac mae ffens ddiogel o'u hamgylch i ganiatáu i ddisgyblion ddysgu'n ddiogel yn yr awyr agored. Mae hyn yn caniatáu i'r ysgol fodloni anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn dda, gan gyfrannu'n llwyddiannus at ddysgu a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol ddewis cynhwysfawr o adnoddau sy'n cyfateb i anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae llyfrgell â digon o lyfrau a chyflenwad helaeth o offer o ansawdd da, gan gynnwys gliniaduron a llechi sy'n cyd-fynd ag anghenion dysgu disgyblion yn dda.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r pennaeth, gyda chymorth medrus y dirprwy bennaeth, yn gweithio'n ddiwyd i greu cymuned ddysgu fywiog sy'n adlewyrchu ei gweledigaeth. Mae'n gosod safonau uchel ac yn creu cyfleoedd dysgu effeithiol sy'n gwella safonau i bob disgybl. Mae'n rhannu ei gweledigaeth gyda staff, llywodraethwyr a chymuned gyfan yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae gan yr holl aelodau staff swydd-ddisgrifiadau manwl sy'n diffinio'u rolau'n glir. Mae trefniadau i reoli perfformiad staff yn gadarn ac mae targedau'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r holl staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cydweithio'n dda fel tîm effeithiol i gynnig profiadau dysgu o ansawdd da. Mae gan gyfarfodydd staff rheolaidd ffocws priodol ar godi safonau. Mae staff yn ystyried cynnydd yn gysylltiedig â chynllun gwella'r ysgol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda. Daw llywodraethwyr ag amrywiaeth eang o brofiad ac arbenigedd i'w rôl. Cynhaliant eu cyfarfodydd yn effeithlon, gydag is-bwyllgorau yn adrodd i'r corff llywodraethol llawn. Mae adroddiadau'r pennaeth yn fanwl ac yn addysgiadol. Mae llawer o lywodraethwyr yn ymgymryd â theithiau dysgu ac ymweliadau monitro ac, o ganlyniad, maent yn gyfarwydd â llawer o agweddau ar waith a bywyd yr ysgol. Mae eu dealltwriaeth o ba mor dda y mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ar draws Cymru yn gwella. O ganlyniad, mae gallu'r corff llywodraethol i herio'r ysgol i wella yn datblygu'n raddol.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r broses hunanarfarnu yn effeithiol ac wedi'i sefydlu'n dda. Mae'r holl staff yn chwarae rhan bwysig wrth gasglu gwybodaeth. Maent yn defnyddio dadansoddiadau data, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion a barn yr holl randdeiliaid. Mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio amrywiaeth gynhwysfawr o dystiolaeth uniongyrchol i lunio dogfen hunanarfarnu gywir. Mae hyn yn adlewyrchu cryfderau'r ysgol ac mae'n amlygu meysydd y mae angen eu datblygu yn gywir. Er enghraifft,

oherwydd systemau monitro helaeth yr ysgol, amlygodd arweinwyr bod lle i wella medrau TGCh disgyblion. Arweiniodd cynlluniau gweithredu dilynol at ddatblygiad proffesiynol effeithiol a buddsoddi mewn seilwaith newydd. O ganlyniad, fe wnaeth medrau TGCh disgyblion wella'n sylweddol.

Mae cysylltiad clir rhwng y ddogfen hunanarfarnu a chynllun gwella'r ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer hwylus o flaenoriaethau ar gyfer gwella, sy'n canolbwyntio'n glir ar godi safonau. Mae arweinwyr yn neilltuo cyllid addas i flaenoriaethau'r ysgol ac mae'r cynllun gwella yn cynnwys amserlenni realistig ynghyd â meini prawf llwyddiant mesuradwy. Er bod yr uwch dîm rheoli yn monitro gweithgareddau'n rheolaidd, mae'n rhy gynnar eto i fesur cynnydd yn erbyn llawer o'r blaenoriaethau presennol. Mae cynnydd tuag at gyflawni bron pob un o'r blaenoriaethau mewn cynlluniau blaenorol, a'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf, wedi bod yn dda.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn elwa o amrywiaeth eang o bartneriaethau. Mae ganddi berthynas gadarn â rhieni. Mae cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol yn gwneud defnydd da o ddulliau electronig i sicrhau bod gwybodaeth yn gyfredol ac yn berthnasol. Mae'r ysgol yn gofyn barn rhieni am amrywiaeth eang o agweddau ac mae'n talu sylw da i'w sylwadau. Er enghraifft, yn dilyn awgrymiadau gan rieni, mae'r ysgol wedi gwella goruchwyliaeth yn y maes chwarae ac wedi cynyddu ei dewis o weithgareddau ar ôl ysgol.

Mae cysylltiadau hynod effeithiol â llawer o ysgolion yn y clwstwr lleol a thu hwnt. Mae cysylltiadau ag ysgolion eraill, sydd wedi bod yn fuddiol i bawb, wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth ar gyfer darllen a TGCh. O ganlyniad, bu gwelliant amlwg yng nghyrrhaeddiad disgyblion. Mae cysylltiadau effeithiol â'r cylch chwarae ar y safle a'r ysgol uwchradd leol sy'n sicrhau pontio hwylus i ddisgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol ac yn gadael yr ysgol.

Mae cysylltiadau agos â'r Eglwys a'r esgobaeth. Mae'r ysgol yn weithgar yn y gymuned ac mae disgyblion yn ymfalchïo mewn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol ac yn cael pleser o wneud hynny. Er enghraifft, yn ystod ffair y pentref, maent yn gorymdeithio drwy'r strydoedd mewn gwisg draddodiadol Gymreig.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda llawer o asiantaethau arbenigol yr awdurdod lleol i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae enghreifftiau'n cynnwys aelodau o'r tîm cymorth dysgu, y gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth cymorth nam ar y clyw.

Rheoli adnoddau: Da

Mae digon o staff â chymwysterau addas i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu manteisio'n gyfartal ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r berthynas waith agos rhwng arweinwyr a'r holl staff yn sicrhau bod yr ysgol yn gymuned agos lle y mae cefnogi ei gilydd yn gryfder arbennig. Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod yr holl staff yn defnyddio amrywiaeth dda o adnoddau o ansawdd da i ategu addysgu a dysgu.

Mae'r trefniadau rheoli perfformiad yn drylwyr. Mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod cyfleoedd datblygiad proffesiynol gwerthfawr ar gael i'r holl staff. Mae llawer o'r rhain yn cysylltu ag amcanion rheoli perfformiad athrawon. Er enghraifft, mae bron pob un o'r staff wedi gwella'u hyder yn y Gymraeg o ganlyniad i gyfleoedd hyfforddiant. O ganlyniad, mae deilliannau disgyblion yn gwella. Mae trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae trefniadau priodol yn bodoli i gynorthwyo uwch arweinwyr i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn dda i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, mae penodi staff i gefnogi llythrennedd a rhifedd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion hyn.

Mae rheolwyr ac arweinwyr yn monitro cyllideb yr ysgol yn dda. Er enghraifft, mae'r buddsoddiad sylweddol mewn offer TGCh wedi cael effaith ddramatig ar ddeilliannau disgyblion yn y pwnc. Maent yn dyrannu cyllid yn briodol i gefnogi'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi gan yr ysgol ac maent yn rhagweld anghenion gwario at y dyfodol.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6653341 - St Mary's Church in Wales

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	221
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	12.1
Grŵp PYD	2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	28	21	29	30
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	89.3	71.4	89.7	83.3
Chwarter meincnod	2	4	3	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	28	21	29	30
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	92.9	76.2	89.7	83.3
Chwarter meincnod	2	4	3	4
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	32.1	33.3	37.9	50.0
Chwarter meincnod	2	2	3	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	28	21	29	30
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	92.9	85.7	89.7	86.7
Chwarter meincnod	2	4	3	4
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	28.6	19.0	41.4	43.3
Chwarter meincnod	3	4	2	2
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	28	21	29	30
Yn cyflawni deiliant 5+ (%)	96.4	81.0	96.6	93.3
Chwarter meincnod	3	4	3	4
Yn cyflawni deiliant 6+ (%)	46.4	42.9	58.6	70.0
Chwarter meincnod	3	3	3	2

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deiliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6653341 - St Mary's Church in Wales

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 221
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 12.1
 Grŵp PYD 2 (8%<PYD<=16%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	25	30	19	26
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	96.0	86.7	94.7	96.2
Chwarter meincnod	1	3	2	2
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	30	19	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.0	86.7	94.7	96.2
Chwarter meincnod	2	4	3	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	28.0	30.0	52.6	46.2
Chwarter meincnod	4	4	2	2
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	30	19	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.0	86.7	100.0	96.2
Chwarter meincnod	2	4	1	2
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	32.0	36.7	52.6	46.2
Chwarter meincnod	3	3	2	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	25	30	19	26
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	96.0	86.7	100.0	96.2
Chwarter meincnod	2	4	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	28.0	26.7	52.6	46.2
Chwarter meincnod	3	4	2	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	110	110 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	109	107 98%	2 2%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	110	107 97%	3 3%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	110	109 99%	1 1%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	110	109 99%	1 1%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	109	107 98%	2 2%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	110	110 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	110	110 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	110	105 95%	5 5%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	110	108 98%	2 2%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	108	97 90%	11 10%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	108	100 93%	8 7%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	54	43 80%	11 20%	0 0%	0 0%	2	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	56	45 80%	11 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	56	43 77%	13 23%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	53	36 68%	17 32%	0 0%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	53	30 57%	23 43%	0 0%	0 0%	3	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	56	34 61%	22 39%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	56	43 77%	13 23%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	48	32 67%	15 31%	1 2%	0 0%	7	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	54	33 61%	21 39%	0 0%	0 0%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	55	41 75%	14 25%	0 0%	0 0%	1	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	54	42 78%	12 22%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	39	26 67%	13 33%	0 0%	0 0%	16	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	39%	4%	1%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I am kept well informed about my child's progress.	53	30 57%	18 34%	5 9%	0 0%	3	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	55	43 78%	12 22%	0 0%	0 0%	1	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	53	28 53%	22 42%	3 6%	0 0%	3	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	53	38 72%	15 28%	0 0%	0 0%	3	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	43	29 67%	12 28%	2 5%	0 0%	13	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	53	35 66%	15 28%	3 6%	0 0%	3	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	56	43 77%	13 23%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Christopher Dolby	Arolygydd Cofnodol
Peter Roach	Arolygydd Tîm
Duncan Haworth	Arolygydd Lleyg
Michael Fryer	Arolygydd Cymheiriaid
Nicola Booth	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.